

# Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau

Arweiniad ymarferol i asesu'r effaith ar iechyd



# Cydnabyddiaeth

---

Hoffem gydnabod cyngor aml-ddisgyblaeth gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr o Gydweithrediad Iechyd ac Amgylchedd Cymru a gafwyd wrth baratoi'r arweiniad hwn. Mae'n adlewyrchu profiad o weithio gyda sefydliadau'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Llywodraeth Leol Cymru, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ddefnyddio a datblygu dull asesu'r effaith ar iechyd, ac mae'n manteisio ar y cyfarwyddyd a ddefnyddiwyd mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r ddogfen hon yn dilyn cyfarwyddyd gwreiddiol Llywodraeth y Cynulliad ar asesu'r effaith ar iechyd.<sup>1</sup> Mae'r ddogfen hon yn edrych ar ffyrdd ymarferol o ddefnyddio'r dull hwn.

Mae Uned Cefnogi Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n cael ei weithredu gan Ganolfan Iechyd Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd. Swyddogaeth yr Uned yw darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth – gan gynnwys hyfforddiant.

Uned Cefnogi Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru  
Athrofa y Gymdeithas, Iechyd a Moeseg Caerdydd  
Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol,  
Prifysgol Caerdydd  
53 Plas y Parc  
Caerdydd CF10 3AT  
Ffôn: 029 2087 4000

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Uned Cefnogi Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru, [www.whiasu.cardiff.ac.uk/index.html](http://www.whiasu.cardiff.ac.uk/index.html)

© Hawlfraint y Goron Medi 2004  
ISBN 0 7504 3575 5



**Cardiff Institute of Society, Health and Ethics**  
**Athrofa y Gymdeithas, Iechyd a Moeseg Caerdydd**

# Gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau

## Arweiniad ymarferol i asesu'r effaith ar iechyd



# Rhagair

---

---

Rwy'n falch iawn o weld yr arweiniad ymarferol hwn i asesu'r effaith ar iechyd yn cael ei gyhoeddi.

Gwella iechyd yw un o flaenoriaethau pwysicaf ein agenda strategol *Cymru: Gwlad Well*. Rydym wedi tanlinellu ein bwriad i wneud hyn trwy ddatblygu polisiau a rhaglenni mwy integredig sy'n cynorthwyo pobl i wella eu ffordd o fyw yn ogystal â mynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl.

Mae asesu'r effaith ar iechyd yn ddull hyblyg sy'n gallu cynorthwyo sefydliadau yn y sector iechyd a thu hwnt i amlygu'r cysylltiadau rhwng eu gwaith ac iechyd a lles pobl. Gall sicrhau bod iechyd pobl yn cael ei ystyried wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau, a thrwy wneud hynny, gall gynorthwyo i leihau unrhyw effeithiau negyddol posibl ar iechyd, a chynyddu cyfleoedd i wella iechyd. Trwy ystyried y posibilrwydd o wahanol effeithiau ar rannau o'r boblogaeth, gall asesu'r effaith ar iechyd gynorthwyo hefyd i leihau'r anghydraddoldebau ym maes iechyd a'r anghyfiawnder o ran mynediad i wasanaethau, sy'n bodoli rhwng rhai o'n cymunedau, a rhwng rhai grwpiau o bobl.

Hoffwn weld asesu'r effaith ar iechyd yn cael eu defnyddio fwyfwy yng Nghymru a dyma pam rwy wedi sefydlu'r Uned Cefnogi Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru i gynorthwyo sefydliadau ledled Cymru i ddefnyddio'r dull. Bydd yr arweiniad cam wrth gam hwn, a gynhyrchwyd gan yr Uned mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau eraill, yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr i amrywiaeth eang o sefydliadau a grwpiau. Mae'n arbennig o berthnasol i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ar gyfer Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Lleol ac ar gyfer Strategaethau Cymunedol.

Trwy gynorthwyo sefydliadau i ystyried sut y gall eu gwasanaethau a'u gweithredoedd effeithio ar iechyd a lles pobl, gall asesu'r effaith ar iechyd hefyd gynorthwyo sefydliadau i chwarae rhan yn *Her Iechyd Cymru*, sef ein ffofws cenedlaethol newydd ar wella iechyd yng Nghymru. Mae afiechyd yn parhau i effeithio ar unigolion a'u teuluoedd, ar fusnesau a'r economi, ac ar y galw am ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ond gellir osgoi llawer ohono. Cais i bob sefydliad ac unigolyn ymuno â'i gilydd fel rhan o ymdrech genedlaethol yw *Her Iechyd Cymru*.

Cymeradwyaf yr arweiniad hwn, ac rwy'n eich annog i'w ddefnyddio er mwyn datblygu eich defnydd o asesu'r effaith ar iechyd.



Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



# Cynnwys

	Tudalen
<b>Cyflwyniad</b>	3
<b>Yr egwyddorion sy'n sail i asesu'r effaith ar iechyd</b>	7
<b>Sut i ddefnyddio dull asesu'r effaith ar iechyd</b>	9
Cam un: Sgrinio – penderfynu a oes angen asesu'r effaith ar iechyd	9
Cam dau: Cwmpasu – penderfynu ar y ffocws, y dulliau a chynllun gwaith	11
Cam tri: Asesu – sefydlu'r effeithiau ar iechyd	14
Cam pedwar: Adrodd	18
Cam pump: Monitro a gwerthuso'r broses	19
<b>Atodiadau</b>	20
<b>Rhestrau gwirio</b>	
Atodiad 1: Rhestr wirio penderfynyddion iechyd a lles	20
Atodiad 2: Grwpiau poblogaeth agored i niwed a/neu ddifreintiedig	21
<b>Offer sgrinio/arfarnu asesu'r effaith ar iechyd</b>	
Atodiad 3: Nodiadau ar yr offer sgrinio/asesu'r effaith ar iechyd	22
Atodiad 4a: Taflen cofnodi sgrinio elfennol	23
Atodiad 4b: Taflen crynhoi asesiadau	27
Atodiad 4c: Matrics asesu'r effaith ar iechyd opsiynol	28
<b>Adnoddau</b>	
Atodiad 5: Adnoddau yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth ar y Rhynggrwyd	29
<b>Cyfeiriadau</b>	33

# Cyflwyniad

---

---


1. Mae asesu'r effaith ar iechyd yn ddull a all helpu sefydliadau i asesu canlyniadau posibl eu penderfyniadau ar iechyd a lles pobl, a thrwy hynny helpu i ddatblygu polisiâu a rhaglenni mwy integredig.
2. Datblygwyd y ddogfen hon fel arweiniad ymarferol i asesu'r effaith ar iechyd. Fe'i cynlluniwyd i gwrdd ag anghenion amrywiaeth o sefydliadau trwy egluro'r cysyniad, y broses a'i hyblygrwydd, a thrwy ddarparu templadau y gellid eu haddasu i wahanol amgylchiadau.
3. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu'r defnydd a wneir o asesu'r effaith ar iechyd yng Nghymru fel rhan o'i strategaeth i wella iechyd a lles ac i leihau anghydraddoldebau iechyd. Paratowyd yr arweiniad ymarferol hwn gan Uned Cefnogi Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog a chefnogi sefydliadau a grwpiau yng Nghymru i ddefnyddio'r dull hwn o weithredu.
4. Bydd datblygu a defnyddio asesu'r effaith ar iechyd yn cyfrannu at y broses barhaus o ddatblygu a gweithredu strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles lleol, y mae'r byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol â chyfrifoldeb statudol ar y cyd amdanynt. Gall hefyd gyfrannu at Strategaethau Cymunedol sydd, o ystyried eu natur eang a'u hyd a'u lled, yn rhoi sylw i benderfynyddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol iechyd, ac i weithredu Cymunedau yn Gyntaf, rhaglen adfywio trawsbynciol cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru.
5. Mae datblygu *Her Iechyd Cymru* fel y canolbwynt cenedlaethol i wella iechyd yng Nghymru yn atgyfnerthu ymdrechion i atal afiechyd. Gall offer megis asesu'r effaith ar iechyd gynorthwyo sefydliadau a grwpiau ym mhob sector i ganfod ffyrdd i helpu pobl i wella eu hiechyd.

## Beth yw 'iechyd a lles'?

6. Edrychir ar 'iechyd' yn aml fel absenoldeb afiechyd. Fodd bynnag, mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn diffinio iechyd fel 'cyflwr o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn ac nid absenoldeb afiechyd neu lesgeidd yn unig'. Mae hyn yn awgrymu:
  - bod iechyd yn gysyniad positif y gall llywodraethau, asiantaethau statudol, mudiadau gwirfoddol, busnesau, cymunedau ac unigolion i gyd gyfrannu ato;
  - gall ymdeimlad pobl o les fod yn wael hyd yn oed mewn achosion lle nad oes 'afiechyd canfyddadwy'.
7. Fel y dywed y WHO 'y polisiâu sydd fwyaf llwyddiannus wrth gynnal a gwella iechyd y boblogaeth yw'r rhai sy'n delio â thwf economaidd, datblygiad dynol ac iechyd mewn ffordd integredig.<sup>2</sup>

## Beth sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl?

8. Mae'r amgylchedd, incwm, cyflogaeth, addysg, trefniadau trafniadaeth, cynllun a chyflwr tai, troseddu a chyflwr cymdeithasol a ffisegol cymdogaethau lleol i gyd yn cyfrannu at iechyd da neu wael. Gelwir y ffactorau hyn yn aml yn benderfynyddion iechyd. Mae asesu'r effaith ar iechyd yn ystyried ym mha ffordd y gallai cynnig neu bolisi effeithio ar y penderfynyddion hyn er mwyn asesu'r effaith tebygol ar iechyd gwahanol grwpiau mewn poblogaeth.



Ffynhonnell: yn seiliedig ar Dahlgren G a Whitehead M (1991) Policies and strategies to promote social equity in health. Stockholm, Institute for Futures Studies.

Ceir rhestr o ffactorau sy'n gallu effeithio ar iechyd a lles pobl yn Atodiad 1.

## Beth yw asesu'r effaith ar iechyd?

### 9. Mae asesu'r effaith ar iechyd wedi cael ei ddiffinio fel

*...cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer y gellir eu defnyddio i farnu effeithiau posibl polisi, rhaglen neu brosiect ar iechyd poblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn y boblogaeth.*<sup>3</sup>

10. Mae'n cynnig fframwaith systematig ond hyblyg y gellir ei ddefnyddio i edrych ar effeithiau ehangach polisiâu neu gynlluniau lleol a chenedlaethol a sut y maent, yn eu tro, yn gallu effeithio ar iechyd pobl. Gall rhai o'r effeithiau fod yn bositif, tra bo eraill yn gallu bod yn fwy niweidiol. Y nod yw dileu neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar iechyd a lles pobl a manteisio i'r eithaf ar gyfleon i helpu pobl i wella'u hiechyd.
11. Mae'r diffiniad uchod yn ddefnyddiol gan ei fod yn pwysleisio'r ffaith nad oes un ffordd unigol o gynnal yr asesu. Bydd y cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer a ddefnyddir yn ddibynnol ar strwythurau penderfynu'r mudiad sy'n gyfrifol am asesu'r effaith ar iechyd ac ar y cynnig sydd dan sylw. Mae hyblygrwydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y dull gorau'n cael ei ddefnyddio yn yr amgylchiadau dan sylw.<sup>4</sup>
12. Mae'r diffiniad hefyd yn tynnu sylw at yr elfen o anghydraddoldeb gan fod polisiâu, rhaglenni neu ddatblygiadau eraill yn gallu effeithio ar grŵp o fewn poblogaeth benodol mewn ffyrdd gwahanol.

## Pam ei ddefnyddio?

### 13. Mae manteision defnyddio asesu'r effaith ar iechyd yn cynnwys:

- hybu cydraddoldeb mewn iechyd;
- mwy o ymwybyddiaeth ymhlith llunwyr polisi a phenderfynwyr ar draws y sectorau o sut y gall y penderfyniadau effeithio ar iechyd;
- canfod y cysylltiadau rhwng iechyd a datblygiadau mewn meysydd polisi eraill;
- cydlynu gwaith rhwng y sectorau'n fwy effeithiol er mwyn gwella ac amddiffyn iechyd;
- hybu prosesau cynllunio a phenderfynu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth;
- gweithredu er mwyn gallu manteisio i'r eithaf ar fuddiannau i iechyd a lleihau peryglon i iechyd i'r graddau posibl;
- buddsoddi mewn camau pellach i alluogi pobl i osgoi afiechyd.

14. Gall asesu'r effaith ar iechyd hefyd helpu i wneud prosesau penderfynu yn fwy tryloyw. Gall, mewn rhai achosion, arwain at gyfleon i ysgogi pobl a gaiff eu heffeithio gan, neu sydd wedi dangos diddordeb, yn y penderfyniad.<sup>5</sup>

## A oes un dull sengl?

15. Mae'r rhan fwyaf o asesiadau o effaith ar iechyd yn dilyn y camau a amlinellir yn yr arweiniad hwn ond os bydd angen, gellir cyfuno rhai ohonynt. Efallai y bydd angen gwneud hyn oherwydd yr amser a'r adnoddau sydd ar gael, ansawdd ac argaeledd tystiolaeth briodol a/neu lefel cymhlethdod y cynnig dan sylw. Mae hyn yn dangos pa mor hyblyg yw'r dull asesu'r effaith ar iechyd.
16. Gellir defnyddio asesu'r effaith ar iechyd fel dull arunig neu fel rhan integredig o offer asesu effaith eraill. Dylid ei ddatblygu yn y ffordd sydd fwyaf addas at yr amgylchiadau, sy'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i'ch mudiad, ac o fewn yr amser a ganiateir i chi.
17. Gellir addasu'r templadau a'r taflenni gwaith sydd wedi eu cynnwys gyda'r arweiniad hwn i gwrdd â'ch anghenion chi.

## Pa bryd dylech chi asesu'r effaith ar iechyd?

18. Y ffordd fwyaf effeithiol o asesu'r effaith ar iechyd yw ymlaen llaw yn ystod y gwaith o ddatblygu cynnig. Ond dylid dechrau defnyddio'r system yn ddigon hwyr yn natblygiad y cynnig i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'i natur a'i bwrpas ond hefyd yn ddigon cynnar i allu dylanwadu ar ei gynllun a/neu ar y ffordd y caiff ei weithredu.
19. Yn ogystal ag asesiadau o effaith ar iechyd arfaethedig, gellir eu defnyddio'n gydamserol neu'n adolygol:
- Gellir defnyddio asesiadau *cydamserol* pan fo cynnig yn cael ei roi ar waith a phan fydd yn cael ei adolygu.
  - Gellir cynnal asesiadau *adolygol* ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Gellir hefyd cynnal asesiadau adolygol yn achos digwyddiadau annisgwyl fel ffordd o ddysgu gwersi ar gyfer digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.<sup>6</sup>
20. Gall asesiadau fod yn:
- 'gyflym' (wedi eu cwblhau mewn oriau neu ddyddiau);
  - 'yn fanwl' (wedi eu cwblhau mewn wythnosau neu fisoedd).

# Yr egwyddorion sy'n sail i asesu'r effaith ar iechyd

---

---

21. Mae polisi yng Nghymru yn rhoi pwyslais ar lawer o'r egwyddorion sy'n cael eu hadlewyrchu yn y cysyniad o asesu'r effaith ar iechyd. Er enghraifft, ffordd o weithio sy'n rhoi pwyslais ar fod yn agored, gweithio mewn partneriaeth a chyfranogi. Mae'r weledigaeth yn un a fydd yn *'creu dyfodol cynaliadwy i Gymru lle mae'r camau a fydd yn gwella amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn ategu ei gilydd i greu newidiadau cadarnhaol.'*

## Bod yn agored

22. Dylai'r broses gael ei chofnodi er mwyn sicrhau ei bod yn agored a thryloyw.

## Cyfranogiad

23. Bydd asesu'r effaith ar iechyd yn fwy llwyddiannus pan fydd pobl, sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau perthnasol, yn gweithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gweithio mewn sefydliadau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yn ogystal â chymunedau lleol.

## Democratiaeth/gwrando ar farn pobl

24. Mae hyn yn pwysleisio hawliau pobl i gyfranogi mewn penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau. Gall asesu'r effaith ar iechyd fod yn gyfrwng sy'n galluogi dinasyddion i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

## Cynaliadwyedd

25. Mae ystyried effeithiau tymor hir yn ogystal â rhai tymor byr, anuniongyrchol yn ogystal ag uniongyrchol, yn cyfrannu i roi sail gynaliadwy i bolisiâu, rhaglenni a phrosiectau. Gall gwrando ar farn dinasyddion hefyd gyfrannu at ddatblygiad cynigion sy'n dderbyniol a phriodol i bobl leol, ac sydd felly'n fwy tebygol o fod yn gynaliadwy.

## Tegwch

26. Dylid cael rhagdybiaeth o blaid lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r broses asesu'r effaith ar iechyd yn cynnig mecanwaith i sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lleihau a bod cyfleon yn cael eu cymryd i wella iechyd a lles grwpiau yn y boblogaeth sy'n agored i niwed.

## Defnydd moesegol o dystiolaeth

27. Ni ddylid defnyddio tystiolaeth mewn ffordd ddethol i gefnogi un safbwynt neu fudd penodol. Dylid cynnal asesiad mor gynhwysfawr â phosibl o fewn yr amser a'r adnoddau sydd ar gael.

# Sut i ddefnyddio dull asesu'r effaith ar iechyd

## Deall y dull

28. Mae asesu'r effaith ar iechyd yn ddull systematig ond hyblyg o gasglu gwybodaeth a fydd yn sail i gynlluniau a phenderfyniadau, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Trwy fod yn hyblyg a realistig, mae'n ddull a all wella'r broses benderfynu heb osod baich gormodol ar adnoddau na chreu biwrocratiaeth ddiangen. Er bod y broses yn gallu swnio braidd yn dechnegol, mae'n broses syml sydd wedi ei rhannu'n bum cam. Trwy gydol y ddogfen hon mae'r 'cynnig' y sonnir amdano yn cyfeirio at y prosiect, rhaglen, polisi neu ddatblygiad arall y bydd eu heffeithiau'n cael eu hasesu.
29. Wrth i chi weithio'ch ffordd trwy gamau 1-5, gweler Atodiadau 1 i 5 ar ddiwedd y ddogfen. Lle gwelwch gyfeiriadau at yr 'offer', mae'n cynnwys Atodiadau 4a i 4c.

## Cam un:

### Sgrinio – penderfynu a oes angen asesu'r effaith ar iechyd

## Pwrpas

30. Mae'n rhaid cael ffordd syml i wybod pa gynigion ddylai gael eu hasesu'n 'gyflym' neu 'fanwl'. Ar ei symlaf mae 'sgrinio' yn golygu camu'n ôl mor gynnar â phosibl yn y broses gynllunio a datblygu a gofyn y cwestiwn: *a allai'r cynnig hwn gael effaith ar iechyd pobl neu unrhyw ffactorau sy'n effeithio ar iechyd pobl neu oblygiadau iddynt.*
31. Nid yw'r cam hwn yn cymryd llawer o amser ac mae'n rhoi darlun cychwynnol o'r effeithiau posibl ar iechyd y boblogaeth berthnasol er mwyn eich helpu i ddod i benderfyniad. Yn fwyaf arbennig bydd yn dangos:
- a yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar iechyd;
  - pa garfannau o'r boblogaeth, yn enwedig grwpiau agored i niwed, sy'n debygol o gael eu heffeithio? Ceir rhestr gychwynnol o grwpiau agored i niwed a/neu ddifreintiedig yn Atodiad 2;
  - graddfa bosibl yr effeithiau ac a ydynt yn debygol o fod yn rhai positif neu negyddol;
  - ai asesu 'cyflym' neu 'fanwl' o'r effaith ar iechyd sydd ei angen.

## Y bobl sy'n gysylltiedig â'r broses

32. Yn ddelfrydol, dylai'r cam hwn fod yn fwy nag ymarferiad sy'n cael ei gynnal gan un person mewn swyddfa. Gellir ei wneud mewn cyfarfod byr neu trwy drafodaethau unigol trylwyr. Mae cyfraniad gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd y cyhoedd, arbenigwyr perthnasol a chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn bwysig.

## Paratoi

33. Cyn cyfarfod rhanddeiliaid eraill dylech sicrhau bod gennych ddisgrifiad eglur o'r cynnig, ei sail resymegol a'i nodau a'i amcanion. Byddai proffil elfennol o'r bobl sy'n byw yn ardal y boblogaeth sy'n debygol o gael ei heffeithio hefyd yn ddefnyddiol, os yw ar gael. Dylid dosbarthu'r wybodaeth hon i'r holl gyfranogwyr mewn da bryd cyn y cyfarfod.

## Cofnodi'r wybodaeth

34. Mae offer sgrinio neu arfarnu asesu'r effaith ar iechyd yn gyfrwng i gofnodi'r wybodaeth sy'n sail i'ch penderfyniad. Bydd hyn yn bwysig os gofynnir i chi gyfiawnhau neu roi rhesymau pam eich bod wedi asesu'r effaith ar iechyd neu beidio. Yn achos y cam hwn, bydd y nodiadau ar ddefnyddio'r offer sgrinio/asesu a'r daflen cofnod sgrinio yn ddefnyddiol. Gweler y rhain yn Atodiad 3 ac Atodiad 4a.
35. Os byddwch yn penderfynu bod angen gwneud mwy i ystyried yr effaith/ effeithiau posibl, dilynwch gamau 2-5.

## Cam dau:

# Cwmpasu – penderfynu ar y ffocws, dulliau a chynllun gwaith

## Pwrrpas

36. Mae'r cam hwn yn golygu gofyn nifer o gwestiynau a gwneud nifer o benderfyniadau i benderfynu ar y cylch gorchwyl a'r cynllun y cytunwyd arno ar gyfer asesu'r effaith ar iechyd:

- Beth yw'r amserlenni ar gyfer cynnal yr asesu?
- Ffiniau daearyddol y prosiect?
- Pa effeithiau/benderfynyddion ddylai'r arfarniad ganolbwyntio arnynt?
- Pa adnoddau ariannol a dynol sydd ar gael?
- Pa fath o asesu sydd ei angen a/neu'n bosibl yn yr amser sydd ar gael – cyflym ynteu fanwl?
- A ddylid sefydlu grŵp llywio a phwy ddylai fod yn aelodau ohono?
- Rolau a chyfrifoldebau?
- Sut ddylai penderfynwyr gyfrannu?
- Pwy yw'r rhanddeiliaid a sut ddylent hwy gyfrannu ato?
- A ddylai'r asesu fod yn ymarferiad mewnol ynteu a ddylid ei gomisiynu?
- Pa ddulliau a ellid eu defnyddio i gasglu tystiolaeth?

## Amserlen

37. Ystyriwch yr amserlenni ar gyfer penderfynu ynglŷn â'r cynnig a cheisiwch sicrhau bod yr asesu o effaith ar iechyd yn cael cyfle i ddylanwadu ar y penderfyniadau terfynol. Bydd yr amserlen hefyd yn dylanwadu ar y penderfyniad y byddwch yn ei wneud ynglŷn â'r math o asesu o effaith ar iechyd y byddwch yn gallu ei gynnal.

## Ffiniau daearyddol

38. Ystyriwch ffiniau daearyddol yr asesu o effaith ar iechyd, h.y. a yw'n ward etholiadol, ardal awdurdod lleol neu ranbarth? Gall rhai effeithiau ardaro ar boblogaethau y tu hwnt i'r rhai sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig felly bydd yn bwysig eich bod yn penderfynu ar y ffiniau a'r rhesymau drostynt.

39. Bydd yn ddibynnol ar ffocws daearyddol eich asesu, ond mae'n bosibl y byddwch yn dymuno manteisio ar yr asesu o angen a gynhaliwyd fel rhan o ddatblygiad Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Lleol. Mae'r dogfennau hyn yn adnoddau allweddol i asesu'r effaith ar iechyd a gynhaliwyd ar lefel sirol, is-sirol ac maent ar gael oddi wrth eich bwrdd iechyd lleol.

## Ffocws

40. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin, canolbwyntiwch ar yr effeithiau hynny sydd fwyaf tebygol o ddigwydd ac a fydd yn cael yr effaith bosibl fwyaf ar iechyd ac anghydraddoldebau. Gan ddefnyddio'r offer sgrinio (Atodiadau 4a-c), ystyriwch ar ba feysydd effaith y dylai'r arfarniad ganol wyntio. Mewn geiriau eraill, pa benderfynyddion sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio a chael yr effaith fwyaf ar iechyd? Hefyd, ar ba grwpiau poblogaeth ddylai'r asesu ganolbwyntio?

## Adnoddau

41. Penderfynwch pa adnoddau sydd ar gael o safbwynt cyllid ychwanegol ac amser pobl. Bydd rhaid i chi ddatblygu dull sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i chi. Os yw asesu o effaith ar iechyd am fod yn elfen reolaidd o'ch proses benderfynu yna yn y rhan fwyaf o achosion ni ddylai fod angen rhagor o adnoddau. Dylid edrych arno fel cyfle i wella'r broses gynllunio a phenderfynu. Fodd bynnag, mae'n bosibl y ceir rhai asesiadau o effaith ar iechyd, er enghraifft datblygiadau polisi mawr, lle bydd angen llawer o waith, a fydd yn cynnwys casglu data neu arolwg llenyddiaeth. Un opsiwn yw penodi rhywun allanol i ymgymryd â'r dasg hon, ond gall opsiynau eraill megis secondiadau lle mae rhywun yn eich sefydliad yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd fod yn fwy gwerthfawr yn y pen draw a bydd yn creu adnodd cynaliadwy i'ch sefydliad yn y tymor hir.

## Graddfa'r asesu

42. Bydd graddfa eich asesu yn dibynnu ar yr amserlenni, yr adnoddau sydd a'r gael a chymhlethdod y prosiect. Gall asesiadau cyflym olygu un cyfarfod gyda rhanddeiliaid a pharatoi adroddiad. Gall asesiadau mwy cynhwysfawr gymryd misoedd a golygu arolygon llenyddiaeth systematig, casglu data newydd a dadansoddiadau arbenigol. Bydd asesu cyflym yn debygol o fod yn addas, ac yn fwy dichonadwy, yn y rhan fwyaf o achosion.

## Grŵp llywio

43. Nid yw grŵp llywio yn hanfodol ond gall fod yn ddull effeithiol o rannu tasgau ac mae'n helpu i hybu cyfranogiad ehangach yn y broses, a pherchnogaeth ohoni. Efallai na fydd yn briodol bob amser yn achos asesu cyflym. Os byddwch yn penderfynu ffurfio grŵp, bydd rhaid i chi gael pobl arno sy'n meddu ar wybodaeth benodol. Gall cynrychiolwyr cymunedau feddu ar syniadau penodol ar sut y bydd cynigion yn effeithio ar bobl leol, ac efallai y byddwch am gynnwys arbenigwyr o'ch tîm iechyd lleol, ac eraill gyda gwybodaeth arbenigol mewn gwyddorau cymdeithasol, epidemioleg, iechyd yr amgylchedd neu economeg iechyd, yn ôl y galw.

## Rhanddeiliaid

44. Dylid penderfynu pwy sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig, neu bwy fydd yn gysylltiedig â'i ddatblygu a'i weithredu. Penderfynwch sut y dylent gyfrannu at y broses, efallai trwy ddarparu tystiolaeth arbenigol, fel aelodau o'r grŵp llywio neu fel derbynwyr yr adroddiad.
45. Yn fwyaf arbennig, ystyriwch gyfraniad y penderfynwyr allweddol gan fod profiad o gynnal asesiadau o effaith ar iechyd wedi dangos pwysigrwydd cytuno ar y rhain ar y cychwyn a'u defnyddio fel rhan o'r broses mewn ffordd briodol.<sup>8</sup> Gallai hyn gynnwys eu hysbysu o'r cynnydd a wneir gan y grŵp llywio. Mewn rhai achosion, gall eu cyfraniad mewn cyfarfodydd cyhoeddus lle mae pobl leol yn bresennol fod yn fuddiol.<sup>9</sup>

## Cam tri: Asesu – sefydlu'r effeithiau ar iechyd

### Pwrpas

46. Mae hwn yn gam allweddol yn y broses o asesu'r effaith ar iechyd. Mae'n casglu gwybodaeth am natur, maint, tebygolrwydd a dosbarthiad posibl effeithiau'r cynnig. Mae hefyd yn gyfle i awgrymu ffyrdd posibl o fanteisio ar y buddiannau i iechyd a lleihau'r risgiau, yn enwedig ymhlith y grwpiau poblogaeth lleiaf iach neu fwyaf difreintiedig.

### Casglu a defnyddio gwybodaeth

47. Gall y term 'tystiolaeth' fod yn ddigon i godi ofn ar rai pobl. Mae ganddo arwyddocâd cyfreithiol a gwyddonol sy'n awgrymu mai dim ond pobl â sgiliau arbenigol iawn all ei ddefnyddio a'i ddeall. Gall hefyd awgrymu na ellir mynegi barn o gwbl heb wybodaeth bendant a gwyddonol i'w ategu.
48. Fodd bynnag, yn y byd go iawn, lle mae'r berthynas rhwng pobl a'r manau lle maent yn byw yn gymhleth tu hwnt, a lle mae dystiolaeth ymchwil i ragweld effaith yn y dyfodol yn ddigon prin. Yn wir, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth fwyaf gwerthfawr ar gael eisoes ar ffurf mewnwleidiadau lleol, proffesiynol a lleyg (gweler yr adran ar wybodaeth isod). Mae gwybodaeth sy'n seiliedig ar ymchwil eisoes ar gael. Defnyddiwch yr hyn sydd ar gael i chi. Gyda defnydd cynyddol yn cael ei wneud o ddulliau cyfathrebu electronig, mae bellach yn haws cael gafael arno a'i ddefnyddio nag erioed.

### Gwybodaeth

49. Ni ddylech ganolbwyntio ar dystiolaeth o'r 'hyn sy'n gweithio' yn unig, ond hefyd ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r holl ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl. Dylech fod â llawer iawn o wybodaeth ychwanegol sydd ar gael i chi yn lleol ac/neu yn genedlaethol.
50. Gall pobl â gwybodaeth arbenigol fod yn ddefnyddiol i chi i gael ateb i gwestiynau technegol. Er enghraifft, pa lefelau o lygrwyr fydd proses yn eu cynhyrchu, sut fydd mwg yn cael ei wasgaru, ym mha ffordd y mae cemegyn arbennig yn debygol o effeithio ar bobl, beth fydd llif traffig ar hyd ffordd, faint o swyddi fydd cynnig penodol yn debygol o'u creu, ac yn y blaen. Gall peth o'r wybodaeth arbenigol hon fod ar gael oddi wrth eich Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, y Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd, Canolfan Iechyd Cymru neu asiantaethau eraill. Mae Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd yn enghraifft amlwg yn hyn o beth. Gallai prifysgolion hefyd fod yn ffynhonnell ddefnyddiol.

51. Cofiwch hefyd y bydd preswylwyr lleol hefyd yn barod i fynegi barn ar sut y bydd cynnig yn debygol o effeithio ar eu hamodau byw. Gallant hwy roi gwybodaeth gyd-destunol sy'n aml ar goll mewn tystiolaeth ymchwil prif ffrwd.

## Proffiliau poblogaethau

52. Dylech fanteisio ar unrhyw wybodaeth neu ddata sydd ar gael ar nodweddion y boblogaeth leol. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r asesiad o anghenion a gynhaliwyd ac a gyhoeddwyd fel rhan o Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles eich Awdurdod Iechyd Lleol. Mae'r dogfennau hyn yn adnodd allweddol ar gyfer asesu'r effaith ar iechyd, sydd i'w gynnal ar lefel y sir, neu lefel is na'r sir.

53. Gall proffil gynnwys rhai neu bob un o'r rhain fel sy'n briodol:

- Priodoleddau cyffredinol y boblogaeth (gan gynnwys maint, dwysedd, oed, rhyw, incwm a chyflogaeth, statws cymdeithasol ac economaidd ac yn y blaen).
- Statws iechyd, yn enwedig grwpiau poblogaeth yr ydych eisoes yn eu hystyried fel bod 'mewn perygl' ac a all elwa neu gael eu niweidio gan y cynnig.
- Dangosyddion ansawdd bywyd.
- Amodau amgylcheddol – tai, trafndiaeth, a chyflwr yr aer, dŵr a'r pridd.
- Barn pobl leol am yr ardal a'r gwasanaethau a ddarperir.

54. Nid yn unig y bydd hyn yn rhoi darlun cyfredol o'r ardal neu'r boblogaeth i chi ond gall hefyd fod yn sail i unrhyw werthusiad a all ddilyn. Er enghraifft, gall gweithgarwch sydd â'r nod o gynorthwyo plant a phobl ifanc gyda gwaith cartref arwain at newid mewn absenoldeb o'r ysgol heb ganiatâd.

55. Mae'r amser a neilltuir i gasglu tystiolaeth yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd gellir rhannu'r tasgau hyn rhwng aelodau'r grwp llywio.

56. Yn ystod y cam hwn, gellwch ddefnyddio'r offer sgrinio/asesu'r effaith ar iechyd yn Atodiadau 4a-c. Mae rhestrau gwirio ar gyfer penderfynyddion iechyd a lles a grwpiau poblogaeth agored i niwed i'w cael yn Atodiadau 1 a 2 yn y drefn honno. Mae nodyn ar adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth ar y Rhyngwyd i'w cael yn Atodiad 5.

## Beth sy'n dystiolaeth dderbyniol?

57. Mae'n debyg y bydd rhaid i chi gael cyfuniad o dystiolaeth ansoddol a meintiol.

58. Os bydd amcangyfrif o faint effaith yn fesuradwy ac yn ddymunol yna mae'n debyg mai dulliau meintiol fydd fwyaf priodol. Er enghraifft gall fod modd amcangyfrif y cynnydd mewn gronynnau llygredd sy'n ganlyniad i newidiadau mewn llif traffig ac effaith hynny ar statws iechyd preswylwyr cyfagos.

59. Fodd bynnag, nid yw'n hawdd mesur effaith posibl pob effaith, ond gall fod yr un mor bwysig neu'n bwysicach o safbwynt eu heffaith ar iechyd a lles pobl leol.

Gall cau ysgol, er enghraifft, arwain at bob math o effeithiau. Bydd effeithiau o'r fath i'w gweld mewn ffyrdd y bydd modd eu canfod trwy ddulliau mwy ansoddol yn unig sy'n ystyried profiadau, safbwyntiau a theimladau pobl.

## Crynodeb byr o ffynonellau tystiolaeth

Mae tystiolaeth i'w chael mewn sawl ffurf. Dylech fanteisio ar yr hyn sydd ar gael o fewn yr amser a'r adnoddau sydd ar gael i chi. Rhestrir isod ffynonellau tystiolaeth posibl. Ni fydd pob un yn briodol ac nid yw'n debygol y byddwch yn gallu cael gafael ar bob un ohonynt. Arweiniad yn unig yw'r rhestr ac ni fwriedir iddi fod yn un gyflawn.

### Gwybodaeth am y boblogaeth gyfredol

- Ystadegau lleol sy'n cael eu casglu'n gyson, er enghraifft ar iechyd, diweithdra, troseddau, ansawdd yr aer.
- Arolygon o amodau lleol.
- Proffiliau cymunedol (e.e. trwy fapio cymunedol).
- Pryderon ac ofnau lleol (os ydynt wedi'u cofnodi).
- Dadansoddiad eilaidd o ddata lleol sydd ar gael eisoes.
- Arolygon barn.
- Arolygon/ymchwil lleol eraill.

### Barn arbenigol (gwybodaeth)

- Barn preswylwyr a gweithwyr proffesiynol gyda gwybodaeth a mewnwleidiad lleol.
- Barn academyddion a gweithwyr proffesiynol unigol gyda gwybodaeth mewn maes arbenigol.
- Sefydliadau a all gynnig cyngor ar bynciau penodol (er enghraifft ymchwil i drafnidiaeth).

### Profiad ehangach

- Ymchwil wedi'i chyhoeddi mewn cyfnodolion academaidd y mae modd cael gafael arnynt trwy ymchwiliadau i lenyddiaeth arbenigol mewn llyfrgelloedd neu ar y Rhyngrwyd.
- Ymchwil a gynhaliwyd neu a gomisiynwyd gan sefydliadau statudol, gwirfoddol neu breifat.
- Rhagfynegiadau yn seiliedig ar fodelau.
- Gwybodaeth am gynigion tebyg sydd wedi eu cyflwyno mewn manau eraill (astudiaethau achos).

## Disgrifio'r effeithiau

60. Gallech ddisgrifio'r effeithiau posibl mewn nifer o ffyrdd. Fodd bynnag, pan yn bosibl dylech asesu:

- **Tebygolrwydd yr effaith.** A yw tebygolrwydd yr effaith yn bendant, posibl neu ddyfaliadol?
- **Graddfa'r effaith.** Pa ganran o'r boblogaeth sy'n debygol o gael ei effeithio?

- **Amseriad yr effaith.** A fydd yr effaith i'w weld mewn wythnosau, misoedd, blynnyddoedd? Mewn rhai achosion gall y peryglon tymor byr i iechyd fod yn werth y buddiannau tymor hir.
- **Dosbarthiad yr effeithiau.** A fydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl mewn gwahanol ffyrdd? Ni fydd cynnig sy'n debygol o fod yn llesol i un garfan o'r boblogaeth o reidrwydd yn llesol i eraill. Mewn rhai achosion, bydd yr asesu yn canfod sut y gellir helpu aelodau o'r poblogaethau lleiaf iach neu fwyaf difreintiedig. Gall hyn fod yn gyfraniad pwysig at leihau'r anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli rhwng rhai cymunedau.

## Canfod cyfleon i wella iechyd a lles

61. Pan fyddwch wedi canfod yr effeithiau y mae'r cynnig yn debygol o'u cael ar iechyd a lles dylech edrych, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill, pa gyfleon sydd ar gael i wneud y gorau o'r gwelliannau posibl i iechyd ac i leihau peryglon posibl i iechyd. Gellwch gofnodi gwybodaeth am effeithiau ar daflen crynhoi asesiadau – yn Atodiad 4b.
62. Gall annog rhanddeiliaid i gyfrannu at y broses hon helpu i sicrhau bod unrhyw argymhellion a wneir yn ymarferol ac yn dderbyniol.

## Cam pedwar: Adrodd

63. Dylai'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam asesu gael ei choladu a'i chyflwyno mewn ffurf sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa y'i bwriadwyd yn y lle cyntaf. Gellir dewis o blith nifer o fformatau posibl sy'n amrywio o restr neu fatrics syml o'r canfyddiadau, i adroddiad mwy cynhwysfawr. Dylai fformat ac arddull yr adroddiad ystyried natur y gynulleidfa(oedd) targed. Mae enghraifft o fatrics asesu'r effaith ar iechyd i'w weld yn Atodiad 4c.
64. Ar hyn o bryd mae Uned Cefnogi Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru yn cadw cofrestr o asesiadau a gwblhawyd. Gall y rhain, ynghyd ag adroddiadau sydd ar gael ar wefannau eraill (Atodiad 5) fod yn sail i'ch adroddiad.

## Cam pump: Monitro a gwerthuso'r broses

65. Gan mai nod asesu'r effaith ar iechyd yw bod yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau, mae'n ddefnyddiol i werthuso sut y defnyddiwyd y wybodaeth, ei ddefnyddioldeb fel y'i gwelir gan y gynulleidfa(oedd) targed ac i ganfod a lwyddodd ai peidio i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau a datblygiadau. Bydd hyn yn helpu i asesu pa mor effeithiol yw'r broses asesu'r effaith ar iechyd wrth ddylanwadu ar benderfyniadau mewn awdurdodau lleol ac yng Nghymru. Efallai yr hoffai sefydliadau ddatblygu eu ffurflenni a'u systemau monitro eu hunain i sicrhau bod asesiadau o effaith ar iechyd yn cael eu hadolygu yng ngoleuni'r penderfyniadau a wneir.
66. Gall adroddiadau hefyd fod yn gyfle i edrych yn ôl ar asesu'r effaith ar iechyd, yr amser a'r adnoddau a ddefnyddiwyd, yr hyn a fu'n llwyddiannus, a sut y goresgynnwyd anawsterau. Mae dogfennau o'r fath yn ffynhonnell dysgu a dylid eu lledaenu fel sail ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Mae ffurflen ledaenu ar gael ar wefan WHIASY ([www.whiasu.cardiff.ac.uk/index.html](http://www.whiasu.cardiff.ac.uk/index.html)) a bydd yn gyfle i chi rannu eich profiadau gyda phobl a sefydliadau eraill sy'n defnyddio prosesau asesu'r effaith ar iechyd ym mhob rhan o Gymru.

# Atodiad 1:

## Rhestr wirio penderfynyddion iechyd a lles

Sylwer mai arweiniad yw'r rhestr hon ac nid yw'n gyflawn.

<b>1. Ffyrdd o fyw</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Deiet</li><li>• Ymarfer corff</li><li>• Defnydd o alcohol, sigarennau, cyffuriau heb eu rhagnodi</li><li>• Gweithgarwch rhywiol</li><li>• Gweithgarwch eraill a all fod yn beryglus</li></ul>
<b>2. Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Trefniadaeth a rolau teuluoedd</li><li>• Pŵer a dylanwad dinasyddion</li><li>• Cefnogaeth gymdeithasol a rhwydweithiau cymdeithasol</li><li>• Cymdogrwydd</li><li>• Ymdeimlad o berthyn</li><li>• Balchder lleol</li><li>• Rhaniadau mewn cymuned</li><li>• Unigedd cymdeithasol</li><li>• Pwysau cyfoedion</li><li>• Hunaniaeth gymunedol</li><li>• Ethos diwylliannol ac ysbrydol</li><li>• Hiliaeth</li><li>• Allgau cymdeithasol arall</li></ul>
<b>3. Amodau byw/ amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Amgylchedd adeiledig</li><li>• Cynllun y gymdogaeth</li><li>• Tai</li><li>• Amgylchedd dan do</li><li>• Sŵn</li><li>• Ansawdd aer a dŵr</li><li>• Apêl yr ardal</li><li>• Diogelwch y gymuned</li><li>• Aroglau</li><li>• Gwaredu gwastraff</li><li>• Peryglon ar y ffyrdd</li><li>• Peryglon o anafiadau</li><li>• Safon a diogelwch manau chwarae</li></ul>
<b>4. Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweithdra</li><li>• Incwm</li><li>• Anweithgarwch economaidd</li><li>• Math o swyddi</li><li>• Amodau yn y gweithle</li></ul>
<b>5. Mynediad at, wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gwasanaethau meddygol</li><li>• Gwasanaethau gofal eraill</li><li>• Cyngor gyrfaol</li><li>• Siopau a gwasanaethau masnachol</li><li>• Mwynderau cyhoeddus</li><li>• Trafnidiaeth</li><li>• Addysg a hyfforddiant</li><li>• Technoleg gwybodaeth</li></ul>
<b>6. Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Polisiâu llywodraeth</li><li>• Cynnyrch Mewnwladol Crynswth</li><li>• Datblygu economaidd</li><li>• Bioamrywiaeth fiolegol</li><li>• Hinsawdd</li></ul>

## Atodiad 2:

### Grwpiau poblogaeth agored i niwed a/neu ddifreintiedig

Bydd y grŵp targed y byddwch yn eu cyfrif fel un agored i niwed neu ddifreintiedig yn ddibynnol ar nodweddion y boblogaeth leol a natur y cynnig ei hun. Y grwpiau mwyaf difreintiedig a/neu agored i niwed yw'r rhai a fydd yn dangos nifer o nodweddion, er enghraifft plant yn byw mewn tldi. Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon felly ac mae'n bosibl yr hoffech ganolbwyntio ar grwpiau gydag anfanteision lluosog.

#### 1. Grwpiau sy'n seiliedig ar oed\*

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn

#### 2. Grwpiau sy'n seiliedig ar incwm

- Pobl ar incwm isel
- Pobl sy'n economaidd anweithgar
- Pobl ddi-waith
- Pobl na all weithio oherwydd afiechyd

#### 3. Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

- Pobl ag anableddau
- Grwpiau ffoaduriaid
- Pobl sy'n ceisio lloches
- Teithwyr
- Teuluoedd un rhiant
- Lesbiaid a phobl hoyw
- Grwpiau lleiafrifoedd ethnig\*\*
- Grwpiau crefyddol\*\*

#### 4. Materion daearyddol

- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd y gwyddys sy'n dangos dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell
- Pobl nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau

Byddwch hefyd am asesu'r effaith ar y boblogaeth o oedolion yn gyffredinol a/neu asesu'r effaith ar ddynion a merched ar wahân.

Sylwer mai arweiniad yw'r rhestr hon ac nid yw'n gyflawn.

\* Gellid rhoi manylion am amrediad oed neu darged gwahanol grwpiau oed

\*\* Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion

## Atodiad 3:

### Nodiadau ar ddefnyddio offer sgrinio/asesu'r effaith ar iechyd

Gellir defnyddio'r offer a ddarperir (ac sydd ar gael mewn ffurf electronig yn [www.whiasu.cardiff.ac.uk](http://www.whiasu.cardiff.ac.uk)) fel fframwaith a man cychwyn ar gyfer 'sgrinio' ac 'asesu' ond mae'n rhywbeth hyblyg a dylid ei addasu ar gyfer ei ddefnyddio'n lleol. Mae'n bwysig eich bod yn dechrau ystyried pwy sy'n debygol o gael eu heffeithio gan gynnig ochr yn ochr â'ch syniadau chi ynglŷn â beth y gallai'r effeithiau fod. Rhoddir rhestr o grwpiau poblogaeth sy'n arbennig o agored i achosion afiechyd i'ch helpu. Fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr gyflawn a dylech fanteisio ar eich gwybodaeth am eich ardal leol. Dylech hefyd asesu'r effaith ar y boblogaeth yn gyffredinol. Paratowyd rhestr wirio iechyd a lles mwy manwl i'ch helpu i benderfynu pa benderfynyddion iechyd sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig. Unwaith eto, arweiniad yn unig yw'r rhestr hon.

Os caiff ei ddefnyddio i 'sgrinio' dylech gofio mai asesu rhagarweiniol yw hwn o'r hyn y gallai'r effeithiau fod. Nid yw gormod o fanylion yn angenrheidiol nac yn bosibl yn ystod y cam hwn. Fodd bynnag, os ydych chi'n ei ddefnyddio fel sail i asesu cyflym, dylid ystyried mwy o fanylion yn unol â chwestiwn 1 y daflen crynodeb o'r asesu.

Gellir defnyddio'r matrices opsiynol fel taflen grynodeb sy'n rhoi syniad mwy gweledol o'r effeithiau posibl. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd i ystyried ar ba effeithiau posibl y dylai'r arfarniad ganolbwyntio.

Nid oes un ffordd haearnidd o wneud penderfyniad i gynnal asesu'r effaith ar iechyd. Fodd bynnag, dylai'r offer sgrinio eich helpu i ofyn; a oes effeithiau pwysig, cyfleon a gollwyd neu gyfle i wella i bawb neu rai grwpiau? Os, ar y cyfan, yr ymddengys y byddai'r cynnig yn elwa trwy asesu'r effaith ar iechyd yna dylid cynnal arfarniad.

## Atodiad 4a: Taflen cofnodi sgrinio elfennol

### 1. Teitl y rhaglen, polisi neu brosiect

### 2. Disgrifiad (gan gynnwys y prif nodau ac amcanion)

### 3. Y prif grwpiau yn y boblogaeth a effeithir gan y rhaglen, polisi neu brosiect.

Grwpiau agored i niwed

Grwpiau eraill

### 4. Crynodeb o effeithiau sylweddol neu gymedrol

A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar y canlynol, neu gael goblygiadau i'r canlynol:

#### A. Ffyrdd o fyw unigol?

(Os nad oes effeithiau tebygol, neu os ydynt yn fach iawn, ewch ymlaen i'r eitem nesaf)

#### Disgrifiad byr o'r effaith a phwy sy'n debygol o gael eu heffeithio o Rif 3

**B. Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol?**

(Os nad oes effeithiau tebygol, neu os ydynt yn fach iawn, ewch ymlaen i'r eitem nesaf)

**Disgrifiad byr o'r effaith a phwy sy'n debygol o gael eu heffeithio o Rif 3**

**C. Amodau byw?**

(Os nad oes effeithiau tebygol, neu os ydynt yn fach iawn, ewch ymlaen i'r eitem nesaf)

**Disgrifiad byr o'r effaith a phwy sy'n debygol o gael eu heffeithio o Rif 3**

**Ch. Amodau economaidd?**

(Os nad oes effeithiau tebygol, neu os ydynt yn fach iawn, ewch ymlaen i'r eitem nesaf)

**Disgrifiad byr o'r effaith a phwy sy'n debygol o gael eu heffeithio o Rif 3**



#### **D. Mynediad at wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau**

(Os nad oes effeithiau tebygol, neu os ydynt yn fach iawn, ewch ymlaen i'r eitem nesaf)

**Disgrifiad byr o'r effaith a phwy sy'n debygol o gael eu heffeithio o Rif 3**

#### **Dd. Effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol ar iechyd a lles?**

**Disgrifiad byr o'r effaith a phwy sy'n debygol o gael eu heffeithio o Rif 3**

### **5. Argymhellion**

A yw'r effeithiau a nodwyd uchod yn ddigon i fod angen cynnal asesu'r effaith ar iechyd?

Ydynt/Nac ydynt

**Os 'Nac ydynt', beth yw'r rhesymau dros beidio â chynnal yr asesu?**

**Os 'Ydynt', rhowch amlinelliad o'r camau nesaf**  
(er enghraifft, dyddiad ac amser y cyfarfod cwmpasu)

A oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol o ganlyniad i'r broses hon?

Oes/Nac oes

**Os 'Oes', nodwch y manylion**

# Atodiad 4b:

## Taflen crynhoi asesiadau

### 1. Crynodeb o effeithiau

Yn achos pob effaith, lle bo'n bosib disgrifiwch:

- a yw'n bositif (sy'n helpu i wella iechyd) neu'n negyddol (sy'n peryglu iechyd);
- y Grwp(iau) yn y boblogaeth a effeithir;
- sut gall yr effaith ddigwydd (er enghraifft, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol);
- graddfa'r effaith;
- pa bryd bydd yr effaith i'w weld;
- natur y dystiolaeth i gadarnhau'r casgliadau uchod.  
(Sylwer: gwiriwch i sicrhau nad oes angen rhagor o dystiolaeth sydd ar gael).

### 2. Cyfleon i roi sylw i effeithiau negyddol

Yn achos pob effaith negyddol posibl, edrychwch ar ffyrdd o'u dileu neu eu lliniaru.

### 3. Cyfleon i fanteisio ar effeithiau positif posibl

Yn achos pob effaith positif posibl, awgrymwch sut y gellid manteisio ar y buddiannau i iechyd.

### 4. Cyfleon ychwanegol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau

Ceisiwch ganfod cyfleon ychwanegol i wella iechyd trwy ddatblygu'r cynnig ymhellach neu yn ystod y broses asesu'r effaith ar iechyd.

### 5. Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Rhowch sylwadau ar sut y gallai gwahanol grwpiau yn y boblogaeth gael eu heffeithio mewn gwahanol ffyrdd, ac ystyriwch ffyrdd o leihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r effeithiau positif.

### 6. Argymhellion sy'n cael blaenoriaeth

Bydd y meini prawf ar gyfer argymhellion yn ddibynnol ar amgylchiadau'r asesu'r effaith ar iechyd. Gellir defnyddio'r canlynol:

- Tebygolrwydd yr effaith.
- Graddfa'r effaith.
- Sut y bydd yr effaith yn dylanwadu ar leihau anghydraddoldebau iechyd.
- Ymarferoldeb yr argymhellion (gan gynnwys cost-effeithiolrwydd).

## Atodiad 4c:

### Matrics asesu'r effaith ar iechyd opsiynol

Prif ddylanwadau ar iechyd	Grwpiau targed							Y boblogaeth gyfan
	1							
Fyrdd o fyw unigol	2							
Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd								
Amodau byw sy'n dylanwadu ar iechyd								
Amodau economaidd sy'n dylanwadu ar iechyd								
Mynediad at wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau								
Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol eraill ar iechyd a lles								

1 Nodwch y grwpiau a effeithir a'r grwpiau agored i niwed ar hyd y tabl

2 Aseswch yr effaith yn y celloedd hyn: sylweddol, cymedrol, isel neu ddim

## Atodiad 5:

### Adnoddau yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth ar y Rhyngwrwyd

#### **Asesu'r effaith ar iechyd**

Mae'r canlynol yn cynnig offer, adnoddau a chyfryngau dysgu arall sy'n gysylltiedig â defnyddio'r broses asesu'r effaith ar iechyd. Mae rhai'n cynnig defnydd o astudiaethau achos sy'n arbennig o ddefnyddiol fel tystiolaeth i gefnogi neu herio safbwyntiau rhagarweiniol ynagl\_n ag effeithiau posibl cynigion.

#### **Uned Cefnogi Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru**

[www.whiasu.cf.ac.uk](http://www.whiasu.cf.ac.uk)

Mae'n cynnwys rhestr o astudiaethau achos, arweiniad i ddefnyddio asesiadau o effaith ar iechyd, gwybodaeth am adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ffurflen i rannu profiadau lleol, a'r diweddaraf am ddatblygiadau ym maes asesu'r effaith ar iechyd yng Nghymru.

#### **Prif Swyddog Meddygol Cymru**

[www.cmo.cymru.gov.uk/content/work/health-impact/index-w.htm](http://www.cmo.cymru.gov.uk/content/work/health-impact/index-w.htm)

Mae'n cynnwys astudiaethau achos o asesiadau o effaith ar iechyd a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hefyd yn cynnwys defnydd o ddogfennau polisi perthnasol a gwybodaeth am feysydd gwaith perthnasol eraill ym maes iechyd y cyhoedd sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

#### **Health Impact Assessment Gateway**

[www.hiagateway.org.uk](http://www.hiagateway.org.uk)

Gwybodaeth, adnoddau, astudiaethau achos, ffynonellau tystiolaeth a rhwydweithiau i gefnogi'r defnydd o asesiadau o effaith ar iechyd.

#### **London Health Commission – health impact assessment section**

[www.londonhealth.gov.uk/hia.htm](http://www.londonhealth.gov.uk/hia.htm)

Mae'n cynnwys canllawiau defnyddiol ar gynnal asesiadau o effaith ar iechyd ynghyd â manylion am yr asesiadau a gynhaliwyd ar bob un o'r strategaethau maerol statudol.

#### **Queen Mary, University of London – Health Research Group, Adran Daearyddiaeth**

[www.geog.qmul.ac.uk/health/](http://www.geog.qmul.ac.uk/health/)

Mae'n cynnwys 'The East London Guide to Health Impact Assessment of regeneration projects'. Mae'r gwaith hwn, sydd mewn tair cyfrol, yn cynnwys arolwg llenyddiaeth ar bedwar maes sy'n berthnasol i adfywio a sut maent yn ymwneud ag iechyd.

#### **Sefydliad Iechyd y Byd**

[www.who.dk/echp](http://www.who.dk/echp)

Mae'n cynnwys astudiaethau achos, offer, ffynonellau tystiolaeth ar y cysylltiadau rhwng y prif benderfyniadau ac iechyd a gwybodaeth am y datblygiadau iweddaraf.

### **The European Centre for Health Policy**

[www.who.dk/echp](http://www.who.dk/echp)

Rhan o Swyddfa Rhanbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd, ac mae'n trefnu gweithdai a chyfarfodydd i ddatblygu a lledaenu syniadau ac arferion da mewn asesu'r effaith ar iechyd.

### **The International Health Impact Assessment Consortium (IMPACT)**

[www.ihia.org.uk](http://www.ihia.org.uk)

Cronfa ddata o adnoddau a defnydd o'r Merseyside Guidelines ar asesu'r effaith ar iechyd.

### **The International Association for Impact Assessment.**

[www.iaia.org/](http://www.iaia.org/)

Yn darparu cefnogaeth a fforwm trafod a syniadau ar y cysylltiadau rhwng penderfynyddion allweddol ac iechyd a gwybodaeth arall ar ddatblygiadau diweddar.

### **Tystiolaeth o gysylltiadau rhwng penderfynyddion ac iechyd**

Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng penderfynyddion a meysydd polisi ac iechyd yn ogystal â'r hyn sy'n wybyddus am effaith ymyriadau penodol ar iechyd.

### **Health Development Agency (HAD)**

[www.hda-online.org.uk](http://www.hda-online.org.uk)

Mae'r safle hwn yn cynnwys crynodebau o arolygon ac adroddiadau llawn a gomisiynwyd neu a gynhaliwyd gan HAD, yn ogystal â dolenn at ddogfennau sefydliadau eraill. Mae'r adran adnoddau a dolenni yn cynnwys eu holl adroddiadau, ac mae'r adran ymchwil a thystiolaeth hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol.

### **Swyddfa Rhanbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd**

[www.who.dk/healthtopics/TopPage](http://www.who.dk/healthtopics/TopPage)

Gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng penderfynyddion ac iechyd. Mae hefyd yn gyfrifol am yr Health Evidence Network [www.who.dk/HEN/20030602\\_2](http://www.who.dk/HEN/20030602_2) <[http://www.who.dk/HEN/20030602\\_2](http://www.who.dk/HEN/20030602_2)>, sy'n bennaf ar gyfer y broses benderfynu yn Rhanbarth Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r safle wedi'i rannu'n ddwy brif ran: adran 'ateb i gwestiynau' lle gellwch ofyn cwestiynau a rhestr adnoddau 'ffynonellau tystiolaeth'.

### **NHS Centre for Reviews and Dissemination (CRD), University of York**

[www.york.ac.uk/inst/crd/](http://www.york.ac.uk/inst/crd/)

Mae'n cynnwys crynodebau o arolygon a gynhaliwyd gan CRD am yr hyn sy'n wybyddus eisoes am effeithlonrwydd ymyriadau i wella iechyd a mynd i'r afael ag afiechyd. Mae'r rhan fwyaf yn ymdrin â thriniaethau meddygol ond mae'n cynnwys y Systematic Reviews of Research Relevant implementing the Wider Public Health Agenda (Gweler arolygon a gynhaliwyd yn 2000). Mae hefyd yn cynnwys Database of Abstracts of Reviews of Effects (DARE), cronfa ddata sy'n rhoi crynodebau o arolygon systematig a aseswyd ar sail ansawdd. Mae rhai ohonynt yn ymwneud â phenderfynyddion iechyd ehangach.

### **The Campbell Collaboration**

[www.campbellcollaboration.org](http://www.campbellcollaboration.org)

Yn cynnwys tystiolaeth o effeithiau nifer o ymyriadau cymdeithasol, addysgol a chyfiawnder troseddol

### **Trip Database**

[www.tripdatabase.com](http://www.tripdatabase.com)

Yn chwilio trwy 55 o safleoedd sy'n cynnwys gwybodaeth ac ymchwil meddygol ac iechyd o safon. Mae'n cynnwys mynediad at ddeunydd 'sy'n seiliedig ar dystiolaeth' ar y we yn ogystal ag erthyglau a godwyd o gyfnodolion nodedig megis y British Medical Journal. Er bod y prif bwyslais ar faterion meddygol mae'n bosibl cael gafael ar dystiolaeth ar benderfynyddion iechyd ehangach.

### **Bwletinau Tystiolaeth Iechyd Cymru**

<http://heb.w.uwcm.ac.uk>

Yn adolygu amrywiaeth o dystiolaeth ar nifer o bynciau, gan gynnwys canser, atal anafiadau, amgylcheddau iach ac iechyd meddwl.

### **Bandolier**

<http://www.jr2.ox.ac.uk/bandolier/index.html>

Mae'r adran Tystiolaeth yn casglu gwybodaeth o dan nifer o bynciau iechyd. Mae'r rhan fwyaf o'r pynciau'n rhai meddygol ond mae'r adran Byw'n Iach yn cynnwys tystiolaeth ar ymyriadau ffyrdd o fyw ac iechyd.

### **MRC's Social and Public Health Science Unit, Prifysgol Glasgow**

[www.msoc-mrc.gla.ac.uk/Default.htm](http://www.msoc-mrc.gla.ac.uk/Default.htm)

Nod yw Uned yw 'hybu iechyd pobl trwy astudio dylanwadau cymdeithasol ac amgylcheddol ar iechyd'. Bydd yr adran gwerthuso effeithiau iechyd ymyriadau cymdeithasol o ddiddordeb arbennig. Maent hefyd yn canolbwyntio ar feysydd heblaw'r sector gofal iechyd megis tai ac adfywio. Maent hefyd yn cynnal yr ESRC Centre for Evidence Based Public Health Policy.

### **ESRC Centre for Evidence Based Public Health Policy (wedi ei lleoli yn Uned Gwyddorau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd MRC ym Mhrifysgol Glasgow)**

[www.msoc-mrc.gla.ac.uk/evidence/evidence.html](http://www.msoc-mrc.gla.ac.uk/evidence/evidence.html)

Fe'i sefydlwyd 'i ymateb i alw cynyddol am ymyriadau polisi rhesymegol ac effeithiol sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth sy'n seiliedig ar "yr hyn sy'n gweithio"'. Mae nifer o astudiaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.

### **The Collaboration for Accidents and Injury Control (Capic)**

[www.capic.org.uk](http://www.capic.org.uk)

Sefydliad rhithwir, sy'n agored i bawb ac sy'n cael ei redeg gan grwp llywio o bobl a mudiadau sy'n ymddiddori ym maes atal anafiadau. Un o'i rolau yw hybu gwerthuso cynlluniau atal anafiadau. Maent yn darparu cyfeiriadau at ymchwil gyhoeddedig, o dan sawl pwnc, yn ogystal ag astudiaethau ymchwil cyfredol a gynhaliwyd gan aelodau CAPOC. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gynlluniau cyfredol yng Nghymru a thu hwnt.

### **Crime Reduction**

[www.crimereduction.gov.uk](http://www.crimereduction.gov.uk)

Ei nod yw darparu gwybodaeth a chyngor i ymarferwyd diogelwch y gymuned ac atal troseddu i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal. Mae'n cynnwys tystiolaeth ar amrywiaeth eang o bynciau o deledu cylch cyfyng i droseddu ar sail hiliol.

### **Transport Research Laboratory**

[www.trl.co.uk](http://www.trl.co.uk)

Gydag amrywiaeth eang o ymchwil ar ddiogelwch ffordd, effaith ar lif traffig a materion amgylcheddol megis s\_n ac allyriadau traffig.

### **Yr Adran Priffyrdd**

[www.highways.gov.uk](http://www.highways.gov.uk)

Mae'n comisiynu ac yn cynnal ymchwil ar nifer o faterion yn ymwneud â thraffig megis ansawdd yr aer, mesurau llonyddu traffig ac effeithiau tagfeydd traffig a'i leddfu ar y gymuned.

### **The European Foundation for the Improvement of Living and Working Conditions**

[www.eurofound.ie](http://www.eurofound.ie)

Mae'n disgrifio'i hun fel corff teiran yr Undeb Ewropeaidd a sefydlwyd i gyfrannu at gynllunio a sefydlu gwell amodau byw a gweithio. Mae'n darparu gwybodaeth ar y cysylltiadau rhwng amodau gwaith ac iechyd.

### **Institute of Rural Health (IHR)**

[www.rural-health.ac.uk](http://www.rural-health.ac.uk)

Mae'n cynnal ymchwil amrywiol ar faterion yn ymwneud ag iechyd a'r amgylchedd gwledig.

# Cyfeiriadau

1. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999) *Datblygu asesu'r effaith ar iechyd yng Nghymru*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
2. Sefydliad Iechyd y Byd (1999) *Health 21: The health for all policy framework for the WHO European Region*. European Health for All Series No.6. Copenhagen: Sefydliad Iechyd y Byd.
3. Sefydliad Iechyd y Byd (1999) *Health impact assessment: Main concepts and suggested approach*. Copenhagen: Sefydliad Iechyd y Byd.
4. Breeze C a Hall R (2002) *Health impact assessment in government policy-making: a case study*. Policy Learning Curve Series Number 6. Brussels: European Centre for Health Policy. Sefydliad Iechyd y Byd.
5. Gellir edrych ar asesu effaith ar iechyd fel mecanwaith i ddatblygu'r agenda Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) trwy annog dinasyddion i gyfrannu at wella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.
6. Asesiad adolygol Institute of Rural Health a Phrifysgol Morgannwg (2003) *Effaith clwy'r traed a'r genau ar iechyd meddwl a lles yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
7. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Cymru: Gwlad Well*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
8. Francie S ac Elliott E (i ddod yn 2004) *Asesu'r effaith ar iechyd: yr effaith ar sgiliau, gwybodaeth a gweithredu prosiect a noddir gan Brif Swyddog Meddygol Cymru*.
9. Elliot E a William G, Prifysgol Caerdydd (2002) *Tai, iechyd a lles yn Llangeinwyr, Cwm Garw: asesiad effaith ar iechyd*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru